

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol nos Lun 24 Awst 2020 am 7.00yh.

Cyflwynwyd mantolen flynyddol am y flwyddyn Ebrill 2019 – Mawrth 2020, a chytunwyd bod y cyfrifon yn gywir. Arwyddwyd y ffurflenni priodol sef Rheloau Sefydlog a Chôd Ymddygiad gan y Cadeirydd.

Cyflwynodd y Clerc fantolen am y cyfnod 01 Ebrill 2020 – 24 Awst 2020.

Cynhaliwyd y cyfarfod arferol am 7.30yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a braf oedd gweld pawb unwaith eto ers y Cyfarfod diwethaf yn Mis Ionawr 2020. Dymunwyd yn dda i Dewi Davies gan obeithio y byddai nôl yn Llanllwni yn fuan. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn yma, ac am gadw cysylltiad wythnosol â'r Cynghorwyr trwy ddanfon yr holl wybodaeth ymlaen ar ebost.

Penderfynwyd bod y Swyddogion presennol yn aros yn eu swyddi tan Mai 2021.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Ionawr.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd yr adnoddau wedi eu harchwilio gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 10fed Mawrth 2020. ac yr oedd rhai pwyntiau wedi eu codi gan yr Arolygwr. Mae'r gwaith yma wedi eu gwblhau.

Bu'r cais i Statkraft yn llwyddianus, a'r gwaith wedi'i gwblhau ar ôl y cyfnod clo.

Danfonwyd llythyr o ddiolch i Statkraft.

CINIO BLYNYDDOL

Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr na fyddai cinio blynyddol yn ystod 2020 oherwydd y Pandemig.

DIFFIBRILYDD

Roedd y Clerc wedi derbyn ebost oddi wrth Calonnau Cymru yn ystod y cyfnod clo. Roedd y Cynghorwyr o blaid gosod offer ar wal Festri Capel Nonni. Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad trwy lythyr gan yr ysgrifennydd Richard Davies bod aelodau Capel Nonni yn hapus i'r "diffibrilydd" gael ei osod yno.

PRAESEPT:

Cytunwyd i gadw Praesept 2021 / 2022 yr un swm ag eleni.

Penderfynwyd cefnogi Elusen Ambiwylans Awyr Cymru; Gofal Cancr Tenovous; Marie Curie; Ysgol Sul Eglwys Llanllwni.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.